

ECAD7004C: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham rydw i'n addysgu?

Sesiwn 4

Datblygu safiad beirniadol

Gwerthoedd a chyfyngiadau astudiaeth gwers

Cwestiynau ymchwil

Sut y gallwn sicrhau bod ein cwestiwn ymchwil yn effeithiol?

h.y.

- ▶ ei bod yn caniatáu inni gynnal yr ymchwil yr oeddem yn ei fwriadu
- ▶ ei fod yn caniatáu inni gasglu'r data sydd eu hangen arnom i ateb y cwestiwn
- ▶ ei fod yn caniatáu inni ddod i gasgliadau

Meddwl am syniad ymchwil

Dechreuwch gyda chwilfrydedd:

- ▶ A yw rhywbeth yn achos?
- ▶ Pam felly?
- ▶ Beth yw canlyniadau gwneud rhywbeth?
- ▶ A yw hyn yn rhan o'm harfer bob dydd?

Canfod y problemau...



Beth yw barn pobl am y teledu?

- ▶ *Mae hyn yn eang ac yn annelwig. Byddwn am wybod pwy yr ydym yn ei olygu wrth 'bobl' a beth yr ydym yn ei olygu wrth 'deledu'.*
- ▶ *Beth fyddai diben yr ymchwil hwn? Pwy fyddai am gael gwybod y canlyniadau?*

Beth yw gwerth addysgol rhaglenni plant yn ôl athrawon?


Hoffwn ddarganfod faint o drigolion lleol sydd â diddordeb mewn cynllun chwarae i blant yn ystod gwyliau'r haf.

- ▶ *Pob preswylydd lleol?*
- ▶ *Dim ond os ydyn nhw'n 'ymddiddori' ... neu a fydden nhw am ei ddefnyddio mewn gwirionedd?*
- ▶ *A fyddai preswylwyr yn hapus i ddefnyddio'r cynllun pe bai'n cael ei redeg? Beth yw eich diddordeb yn hyn?*

Fy mhrosiect i yw gwneud rhywfaint o ymchwil i awtistiaeth, canfod beth mae pobl yn ei wneud pan fydd eu perthnasau yn ei gael, a pha gymorth y gallant ei gael a sut mae meddygon yn delio ag ef.

- ▶ *Beth ydych chi'n ei feddwl o'r ffordd y mae'r cwestiwn hwn wedi'i ysgrifennu?*
- ▶ *Pa gwestiynau fydddech chi'n eu gofyn petaech chi'n goruchwylio'r myfyriwr hwn?*

Nodau ac amcanion



Nod: grym ysgogi cyffredinol yr ymchwil - beth yr ydych am ei ddarganfod?

Amcanion: y ffordd yr ydych yn bwriadu cyflawni'r nod. Sut y byddwch chi'n canfod hyn?


Problemau gyda chwestiynau ymchwil

Problemau cyffredin

- ▶ Maent yn rhy eang
- ▶ Does dim ffordd glir i'w hateb
- ▶ Allwch chi ddim cael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch

Gofynnwch i'ch hunan:

- ▶ A yw'r cwestiwn yn ddigon manwl?
- ▶ A yw'r ymchwil a ddaw o'r cwestiwn hwn yn bosib i'w gwneud?



Cwestiynau ymchwil astudio gwersi

Nawr...

Nodwch agwedd ar ymarfer personol a fyddai'n elwa o gael ei 'thrawsnewid'.

Defnyddiwch adlewyrchiadau blaenorol, adborth ac unrhyw ffynonellau eraill o dystiolaeth i lywio eich dewis

Ffurio parau

- ▶ Rhaid i'r partneriaid gytuno ar y pwnc sy'n cael ei ymchwilio (ac ar y cwestiwn);
- ▶ Fel arfer, dylai'r ddau bartner fod yn yr un rhwydwaith;
- ▶ Mae'n ddefnyddiol os bydd y partneriaid yn ymchwilio yn yr un cyfnodau allweddol neu rhai cyfagos, e.e. yn CA2/un yn CA2 ac un yn CA3 ac ati.

Tasg Gyfeiriol 3

► Cynradd - Tasg 3a

Darllenwch Warwick, P., Vrikki, M., Vermunt, J.D., Mercer, N. & von Halem, N. (2016) Connecting observations of student and teacher learning: an examination of dialogic processes in Lesson Study discussions in mathematics. *ZDM Mathematics Education* (2016) 48: 555.

► Uwchradd - Tasg 3b

Darllenwch Cajkler, W., Wood, P., Norton, J., Pedder, D. & Xu, H. (2015) Teacher perspectives about lesson study in secondary school departments: a collaborative vehicle for professional learning and practice development, *Research Papers in Education*, Vol.30, Issue 2.

Darllen ar ôl y sesiwn

Bydd angen i chi wneud rhywfaint o ddarllen am:

- ▶ Y broses o astudio gwersi:

DS Dylech gynnwys cyfeiriad at Peter Dudley yn eich aseiniad.

Fe welwch wybodaeth berthnasol:

- ▶ Mewn llyfrau (yn y Llyfrgell!)
- ▶ Mewn cyfnodolion (ar gael ar y porth llyfrgell ar-lein)
- ▶ Ar Moodle

Unrhyw gwestiynau?



